**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**01/05/2025**

09:00 – 13:00

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards, Peter Strachan

**Hefyd yn bresennol**

Sam Hadley, Lorenzo Visentin, Nick Millington, Stephen Morgan (Cofnodion)

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

**2. Sylw i ddiogelwch.**

Trafododd y Bwrdd weithgarwch TPWS a data SPAD, gan nodi nad oedd unrhyw dueddiadau clir ond bod angen golwg dyfnach, yn enwedig o ran ffactorau dynol a lleoliadau risg uwch. Codwyd pryderon nad yw casglu data yn trosi'n wybodaeth y gellir gweithredu arni, gyda diffyg hygyrchedd ac aeddfedrwydd dadansoddol. Cytunwyd i archwilio adnodd dadansoddol dros dro, defnyddio deallusrwydd artiffisial i wella'r golwg manwl a geir, a chryfhau'r mentora ar gyfer staff llai profiadol. Cefnogwyd ymgysylltu â ffynonellau data allanol ac integreiddio diogelwch mewn dadansoddeg ehangach. Trafodwyd risgiau ehangach hefyd, gan gynnwys dylunio seilwaith ac anifeiliaid yn tresmasu.

**3. Sylw i gwsmeriaid**

Trafododd y Bwrdd amserlenni a dull gweithredu newydd, wedi'u hategu gan lywodraethu, cyfathrebu a chydweithio cryf rhwng TrC a Network Rail, gyda'r risgiau allweddol yn cael eu deall er bod rhywfaint o bwysau o ran adnoddau o hyd, yn enwedig o ran argaeledd staff. Mae mesurau lliniaru'n cael eu datblygu, gan gynnwys defnyddio staff yn hyblyg a chymhellion, ond mae risg sylfaenol yn parhau. Roedd y trafodaethau am y fflyd yn tynnu sylw at heriau parhaus o ran dibynadwyedd a rhannau, yr angen am weledFor cliriach o ran perfformiad, ac ystyried adnoddau ar gyfer cynnal a chadw a chynllunio wrth gefn. Roedd yr amrywiaeth ym mherfformiad depos yn gysylltiedig ag adnoddau dros dro, gyda'r angen am atebion mwy cynaliadwy.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Nododd y Bwrdd dueddiadau cadarnhaol gan gynnwys gwell dibynadwyedd, llai o ganslo, dangosyddion diogelwch cryf, a refeniw teithwyr yn perfformio'n well na'r farchnad ehangach er nad oedd yn bodloni'r cynllun. Trafododd y Bwrdd well integreiddio rhwng cynllunio amserlenni, meddiannau ar gyfer gwaith peirianneg, ac ystyriaethau masnachol, ochr yn ochr â herio mewn modd mwy adeiladol mewn trafodaethau llywodraethu, gan nodi'r angen i gynnal perfformiad a throsi asesiadau risg yn fesurau lliniaru go iawn. Roedd y prif risgiau a drafodwyd yn cynnwys dibynadwyedd y fflyd a materion ehangach yn ymwneud â pherfformiad y system, digwyddiadau seilwaith a'u heffaith fasnachol, a'r potensial i heriau o ran cerbydau danseilio'r enillion a wnaed yn ddiweddar. Cydnabuwyd gwelliannau diwylliannol o ran priodoli diffygion, er bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau argaeledd. Trafodwyd pryderon gweithredol fel mynediad i'r depo a symudiadau staff yn Ffynnon Taf.

**6. Adolygiad ariannol**

Adolygodd y Bwrdd y perfformiad ariannol a'r risgiau ar gyfer y dyfodol mewn cyd-destun strategol ar ddiwedd y flwyddyn [redacted]

[redacted]

**7. Diogelwch**

Trafododd y Bwrdd y cynnydd mewn achosion o anafiadau i deithwyr, gan nodi bod hyn yn cyd-fynd yn fras â'r cynnydd yn nifer y teithwyr. Llithro a chwympo yw'r achosion mwyaf cyffredin. Dywedodd y Bwrdd fod angen meincnodi perfformiad ar draws y diwydiant yn ehangach. Codwyd pryderon bod y metrig hwn yn sefyll allan o'i gymharu â pherfformiad sy'n gadarnhaol fel arall, gan amlygu ffactorau ymddygiadol fel llai o ddefnydd o reiliau llaw ar ôl Covid a theithwyr yn rhuthro i ddal trenau. Mae'r mesurau lliniaru posibl yn cynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o hylendid rheiliau llaw, pennu platfformau mewn modd mwy deinamig mewn lleoliadau canolog, ac

adolygu a yw'r dangosyddion perfformiad allweddol yn dal yn briodol os yw'r data'n dal yn amrywiol iawn. Nodwyd tueddiadau tymhorol hefyd, gyda gwelliannau'r gaeaf ddim yn cael eu cynnal yn y misoedd cynhesach, a bydd dadansoddiad a thrafodaeth bellach yn cael eu dwyn yn ôl gerbron y Bwrdd.

**9. Diweddariad Masnachol**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad masnachol, gan nodi perfformiad gwydn, gyda'r refeniw'n parhau i berfformio'n well na'r twf cenedlaethol er gwaethaf pwysau parhaus yn y farchnad a chraffu manwl ar yr ysgogwyr allweddol. Mae ysgogi niferoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth glir, wedi'i hategu gan ddealltwriaeth ddadansoddol gynyddol gadarn a ffocws cryf ar drosi hyn yn gamau gweithredu effeithiol wedi'u targedu. Nodwyd bod annog cyfleoedd tymor byr, gan gynnwys ehangu Talu wrth Fynd, parcio a theithio, a thwf rhanbarthol (yn enwedig yng Ngorllewin a Gogledd Cymru), yn ddulliau pwysig o sicrhau rhagor o gynnydd. Mae tua hanner y teithiau gan oedolion bellach yn rhai Talu wrth Fynd ac, er ei fod yn is na'r potensial llawn ar hyn o bryd, mae'n cynnig mantais sylweddol, gyda'r ffaith ei fod wedi sefydlogi yn gynt na'r disgwyl yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar feysydd fel prisio, hyder cwsmeriaid, a gwelliannau gweithredol gan gynnwys gorsafoedd heb gatiau a hen gynnyrch.

**9.1 Diweddariad Refeniw Traws Cymru**

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar refeniw Traws Cymru.

**10. Diweddariad ar Farchnata**

Nododd y Bwrdd fod y pwyslais yn symud tuag at ddulliau sydd wedi'u targedu'n fwy helaeth ac sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan gynnwys segmentu ac ymyriadau sy'n benodol i leoliadau, er mwyn deall ymddygiad cwsmeriaid yn well a throsi treialon yn ddefnydd dro ar ôl tro. Mae meithrin ymddiriedaeth ac eglurder ynghylch Talu wrth Fynd yn flaenoriaeth allweddol, ac mae angen gwell addysg i gwsmeriaid, arwyddion cliriach, a phrosesau symlach i fynd i'r afael â dryswch a phrofiadau negyddol. Er bod technoleg ddigidol yn dal yn rhan ganolog o hyn, mae cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd sianeli traddodiadol gan gynnwys posteri a negeseuon mewn gorsafoedd i gyrraedd y cwsmeriaid hynny sy'n ymgysylltu llai yn ddigidol a chefnogi newid ymddygiad ehangach tuag at ddefnyddio rheilffyrdd. **Cam Gweithredu Gofynnodd y Bwrdd i LB ddarparu crynodeb o ddemograffeg Talu wrth Fynd.**

**11. Effaith Perfformiad Class 398**

Trafododd y Bwrdd barodrwydd ar gyfer y gwasanaeth erbyn mis Mehefin a rheoli risgiau y tu hwnt i'r garreg filltir honno. Mae'r gwaith modelu wedi'i gwblhau ac mae'r sylw bellach ar fesurau lliniaru, gan gynnwys gwaith helaeth i leihau risgiau'r seilwaith a mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan gynllun strwythuredig sy'n olrhain y blaenoriaethau uniongyrchol a'r cerrig milltir tymor hwy, ochr yn ochr â "meddylfryd metro" sy'n datblygu a'r angen i fynd â'r teithwyr gyda ni ar y daith. [redacted]

[redacted]

**11. Unrhyw Fater Arall**

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**